

Mathau o Ddadleuon

Cyfres o ddatganiadau yw dadl, lle mae un o'r datganiadau (y casgliad) yn cael ei gefnogi neu ei ymhlygu gan y datganiadau eraill (y rhagosodiadau).

Er enghraifft:

Mae Amgueddfa'r Louvre ym Mharis.
Mae Paris yn Ffrainc.
Felly mae Amgueddfa'r Louvre yn Ffrainc.

Y ddau ddatganiad cyntaf yw'r rhagosodiadau, a'r trydydd yw'r casgliad.

Sut mae'r ddadl ganlynol (i) yn debyg a (ii) yn wahanol?

Mae Amgueddfa'r Louvre yn Worthing.
Mae Worthing yn Lloegr.
Felly mae Amgueddfa'r Louvre yn Lloegr.

Yn debyg:

- Mae'r un strwythur i'r ddwy ddadl: dau rhagosodiad a chasgliad.
- Mae'r casgliad yn dilyn yn rhesymegol o'r rhagosodiadau yn y ddwy.

Yn wahanol:

- Mae'r rhagosodiadau yn wir ac mae'r casgliad yn wir yn y ddadl gyntaf. OND mae'r rhagosodiad cyntaf a'r casgliad yn anwir yn yr ail ddadl.

Mae strwythur dadl arall yn bosibl, lle hyd yn oes os yw'r rhagosodiadau i gyd yn wir, nid yw'r casgliad o angenrheidrwydd yn dilyn. Ystyriwch y canlynol:

Os bydd yn bwrw, byddaf yn gwlychu.
Gwlychais.
Felly fe wnaeth hi fwrw.

(Gofynnwch i'r myfyriwr geisio rhoi achos lle mae'r rhagosodiadau a roddwyd uchod yn wir ond nid yw'r casgliad yn wir. Yna rhowch ateb posibl iddo, e.e. Ni wlychais oherwydd y glaw ond oherwydd bod rhywun wedi troi peipen ddŵr arna' i!)

Mae athroniaeth yn gwahaniaethu rhwng y ddau fath hyn o ddadl. Gelwir y gyntaf (lle mae'r casgliad o angenrheidrwydd yn dilyn o'r rhagosodiadau) yn ddadl ddiddwythol. Gelwir yr ail (lle nad yw'r casgliad o angenrheidrwydd yn dilyn o'r rhagosodiadau) yn ddadl anwythol.

Y ddadl ddiddwythol sy'n cynnig prawf athronyddol, ond tebygolrwyddau yn unig y gall y ddadl anwythol eu cynnig. (Gallech ofyn i'r myfyriwr esbonio pam.)

Nawr, defnyddiwch yr adnodd digidol 'Pa ddadl?'

Cynnal prawf ar ragosodiadau: A priori ac a posteriori

Nid yw nodi'r math o ddadl (h.y. penderfynu ai dadl ddiddwythol neu ddadl anwythol ydyw), ynddo'i hun, yn profi p'un a yw'r casgliad yn wir neu'n anwir. Mae angen penderfynu p'un a yw'r rhagosodiadau unigol yn wir neu'n anwir.

Ystyriwch y ddau ragosodiad canlynol hyn:

1. Mae'r cylch yn sgwâr.
2. Mae Carmel yn ennill gradd B mewn Astudiaethau Crefyddol Lefel Uwch.

Beth yw'r gwahaniaeth yn y ffordd y byddech yn mynd ati i ganfod a yw'r rhagosodiad yn wir neu'n anwir?

(Ateb: yn rhagosodiad 1 byddech yn gwybod ar unwaith, trwy ddiffiniad yn aml, fel yma. Yn rhagosodiad 2, byddai angen i chi weld y dystysgrif neu edrych ar restr o ganlyniadau wedi'u cyhoeddi. Byddai'n mynnu rhyw fath o ymchwilio gyda'r gwerth gwirionedd – gwir neu anwir – a benderfynir yng ngolau rhyw brofiad yn unig, e.e. gweld y dystysgrif).

Mae'r math cyntaf o ragosodiad, y gellir pennu ei werth gwirionedd heb gyfeirio at unrhyw ymchwiliad, yn cael ei alw'n 'a priori' (cyn cael profiad neu'n hysbys cyn cael profiad), tra gelwir yr ail ragosodiad yn 'a posteriori' (o brofiad/ymchwiliad neu ar ôl profiad/ymchwiliad).

Nawr, defnyddiwch yr adnodd digidol 'A priori neu a posteriori'.

Credoau seiliol

Gall rhagosodiadau a posteriori fod yn broblemus. Yn aml, ni fydd rhywbeth sy'n argyhoeddiadol i un person yn bwysig o gwbl i berson arall. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r rhagdybiaethau sydd gan bob un ohonom, a sut mae'r rhain yn effeithio ar y ffordd rydym yn dehongli'r dystiolaeth.

Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'n credoau yn deillio o gredoau eraill, sydd yn eu tro yn deillio o gredoau eraill eto, ac yn y blaen. Mae'n bwysig bod pob un o'n credoau yn eu tro yn seiliedig ar gred y gellir ei chyfiawnhau.

Er enghraifft, ystyriwch y gred y bydd hi'n bwrw glaw yfory. Nodwch y gyfres o gredoau y gall y gred hon ddeillio ohonynt.

(Ateb posibl: credu'r rhagolygon tywydd; credu bod y data y mae'r swyddfa dywydd yn gweithio gydag ef yn gywir; credu bod y data o angenrheidrwydd yn arwain at batrymau tywydd penodol; credu bod amodau'r tywydd yn gweithio yn ôl patrymau penodol, ac ati)

Mae'r cwestiwn yn codi ynghylch p'un a oes unrhyw gredoau sy'n hunangyfiawnhaol, h.y. nod oes gofyniad i apelio at gred bellach i'w chyfiawnhau. Cyfeirir at y credoau hunangyfiawnhaol hyn fel credoau seiliol neu gredoau sylfaenol.

Mae'r credoau seiliol hyn yn gredoau yr ydym yn teimlo bod rhaid i ni gytuno â nhw, heb yr angen i apelio at gredoau pellach i'w chyfiawnhau.

Esboniwch pam mae'r datganiad 'Rwyf mewn poen' wedi'i ystyried gan rai yn gred seiliol.

(Ateb: mae'n amlwg i'r synhwyrâu. Hyd yn oed os nad oes tystiolaeth feddygol o boen, nid yw'n dileu'r gred fy mod mewn poen; mae gen i gysylltiad â'm poen nad oes gan unrhyw un arall.)

Yn ddadleuol, roedd Alvin Plantinga yn dadlau fod cred yn Nuw yn gred seiliol gan fod iddi'r nodwedd o gred ddi-sail sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer credoau eraill.

Roedd William Alston yn dadlau fod cred yn Nuw yn rhesymol, nid am fod ei gwirionedd yn cael ei achosi gan gasgliad cyfres o ragosodiadau, ond oherwydd y gellid dod i gysylltiad â